**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Llywodraeth Cymru

31 Ionawr 2019

Annwyl Rebecca

**Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019**

Trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddatganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 30C ar gyfer y rheoliadau a enwir uchod, yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr 2019.

Hoffwn dynnu eich sylw at nifer o bryderon sydd gennym ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Yn gyntaf, mae'r datganiad ysgrifenedig yn cyfeirio at Reoliadau a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 16 Ionawr 2019. Cafodd y Rheoliadau eu tynnu yn ôl wedyn a gosodwyd fersiwn newydd o'r Rheoliadau ar 17 Ionawr. Mae fersiwn ddiweddarach o'r Rheoliadau yn wahanol i'r fersiwn a osodwyd y diwrnod cynt.

Nid yw'n glir o'r datganiad ysgrifenedig a osodwyd ar 18 Ionawr a yw Llywodraeth Cymru wedi cydsynio i'r fersiwn ddiweddaraf o'r Rheoliadau na pha rôl oedd gan Lywodraeth Cymru, os o gwbl, mewn perthynas ag ailddrafftio'r Rheoliadau. Rydym yn gofyn am gadarnhad ynghylch y pwynt hwn ac, yn fwy cyffredinol, o ran y broses sy'n cael ei dilyn mewn amgylchiadau lle mae Llywodraeth y DU yn tynnu Rheoliadau yn ôl, yn eu diwygio ac yn eu hailgyflwyno.

Rydym o'r farn bod rhaid i ddatganiadau ysgrifenedig gofnodi'n llawn ac yn gywir y cysyniad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Lle bo angen, dylai hyn gynnwys gosod datganiadau ysgrifenedig diwygiedig i gynnwys newidiadau dilynol i

reoliadau a wneir ar eu rhan, ni waeth pa mor fân ydynt yng ngolwg Llywodraeth Cymru, gydag eglurhad am y newidiadau a wnaed.

Rydym wedi nodi i ddatganiad ysgrifenedig diwygiedig gael ei gyhoeddi ar 29 Ionawr 2019 gyda linc i'r fersiwn o'r Rheoliadau a osodwyd ar 17 Ionawr. Nid yw hyn yn tawelu'r pryderon nac yn ateb y cwestiynau a godwyd uchod.

Yn ail, ac fel nifer o Reoliadau eraill yr ydym wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru atynt, er bod y Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru yn ddilyffethair, maent hefyd yn cynnwys darpariaeth lle gallai Gweinidogion Cymru rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru ar eu rhan.

Pan roddir swyddogaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol (neu i awdurdod a gadwyd yn ôl) mewn maes sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gallai hyn gael yr effaith o gyfyngu ar allu'r Cynulliad i ddeddfu yn y maes hwn heb fod angen cydsyniad Llywodraeth y DU. Os yw'r Rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol, nid yw'n glir a fydd y cyfyngiad ym mharagraff 11 o Atodlen 7B yn cyfyngu ar allu'r Cynulliad i addasu neu ddileu'r swyddogaethau hynny heb gydsyniad Llywodraeth y DU. Mae hyn er gwaethaf y ffaith y bydd y swyddogaeth yn gweithredu mewn maes datganoledig.

Am y rheswm hwnnw, rydym yn gofyn am eglurhad pellach gan Lywodraeth Cymru ar y mater cyfansoddiadol pwysig hwn.

Yn drydydd, fe wnaethom nodi'r ffaith i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y Rheoliadau gael ei gynnal rhwng 3 a 14 Rhagfyr 2018. Gwnaethom hefyd nodi bod bron chwarter yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn rhoi adborth negyddol am y cyfnod ymgynghori 11 diwrnod.

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan trwy gydol y broses o ddatblygu'r ymgynghoriad ac mewn perthynas â'r diwygiadau a gynhwysir yn y Rheoliadau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro ymhellach fod y Rheoliadau wedi cael eu haddasu i ymgorffori newidiadau a sylwadau a gynigiwyd gan y Gweinyddiaethau Datganoledig.

Fodd bynnag, nid yw'n glir a oedd yr ymgynghoriad wedi ceisio cysylltiad unigol, a chael barn, cyrff cyhoeddus, sefydliadau ac unigolion Cymru ac ati. Hoffem gael eglurhad ar ddull cyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnal ymgynghoriadau dan arweiniad Llywodraeth y DU ar Reoliadau drafft sydd i'w gwneud gan Weinidogion y DU lle mae'r Rheoliadau hynny'n effeithio ar feysydd datganoledig.

Hefyd, mae nifer o faterion eraill yr ydym am dynnu eich sylw atynt.

Nid yw'r datganiad ysgrifenedig yn egluro nad rhestr gynhwysfawr yw'r rhestr o gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei ddiwygio gan yr offeryn, fel y'i darperir yn y datganiad. Mae'r rhestr yn y datganiad ysgrifenedig yn hepgor cyfres o gyfreithiau'r UE a ddargedwir sy'n destun mân ddiwygiadau a diwygiadau technegol gan yr offeryn hwn.

Yn ogystal, mae'r rhestr o gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei ddiwygio yn cynnwys cyfraith yr UE a ddargedwir, er gwaethaf y ffaith bod y gyfraith honno yn cael ei dirymu gan yr offeryn hwn.

Ar ben hynny, ar bwynt bach, yn y datganiad ysgrifenedig, yn y rhestr o gyfraith ddiwygiedig yr UE a ddargedwir, dylai'r pwynt bwled cyntaf ddarllen Rheoliad (EC) 1924/2006 (nid 1924/2206).

Byddwn yn ddiolchgar am ymateb ac eglurhad ar y materion hyn erbyn 7 Chwefror 2019. Anfonir copi o'r llythyr hwn at Vaughan Gething AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir



**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.